# Cwmni

Rhifyn 168 Pris 80c Rhagfyr 2014



*Dymunwn*

*Nadolig Llawen a*

*Blwyddyn Newydd Dda*

*i chi*

*i gyd*

## Artist y Mis

Llun pastel meddal gan Myrna Roberts yw llun y mis hwn. Bu Myrna, sy'n byw yng Nghaerffili, yn aelod brwd Grŵp Dydd Gwener ers y dechrau. Mae'n hoff o baentio tirluniau ac, yn fwyaf arbennig, gydag olew.

Mae wedi arddangos ei gwaith yn rheolaidd yn yr Eglwys Norwyaidd ym Mae Caerdydd, yn Abertridwr a'r Galeri yng Nghaerffili, gyda Chymdeithas Arlunio Caerffili ac yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Pan nad yw hi'n brysur yn paentio, mae Myrna yn mwynhau cerdded a gwylio rygbi. Hi, hefyd, yw organydd ei chapel yn Abertridwr.

Peidiwch ag anghofio Arddangosfa Nadolig Grŵp Dydd Gwener, rhwng y 24ain o Dachwedd a'r 15fed o Ragfyr, ar lawr cyntaf llyfrgell newydd Caerffili. Bydd gweithfeydd gwreiddiol a fforddiadwy gan y grŵp ar werth yno.

## “Cwm*ni*”
**Papur y 4 Cwm**

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough
fairclougme@aol.com 02920 885151

**Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas
e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jonesbenamary2000@yahoo.co.uk

02920 862428

**Ymgynghorydd:** Ann Lewis

**Digwyddiadur:** Lowri Jones
Lowri@mentercaerffili.org

**Ieuenctid:**
Bethan Mair Jones a Morgan Roberts

**Tanysgrifio:**
Marian Fairclough a Jan Penney

**Dyluniwr:**
Gareth Williams
bocspostgap@btinternet.com

**Argraffwyr:** Tower Print (Caerffili)

Mae'n bleser gan
**Ferched y Wawr Cwm Rhymni**
a
**“Cwm*ni*” Papur Bro y 4 Cwm**

eich gwahodd i

# Noson Gymraeg

Yng Nghlwb Rygbi Caerffili, Parc Virginia

Nos Fercher 17eg o Ragfyr

7:30

Siaradwr Gwadd

## Cennard Davies, Treorci

Mynediad yn Rhad ac Am Ddim –*Free Admission*
Cyfleusterau Cyfieithu - *Translation Facilities*

**Bar a Bwffe**

*RSVP: Mrs Marian Fairclough,*
*fairclougme@aol.com 02920 885151 erbyn y 12fed o Ragfyr*

Wnewch chi nodi, os gwelwch yn dda, na fyddwn yn cyhoeddi rhifyn o “Cwm*ni*” ym mis Ionawr. Tybed, felly, allwn ni ofyn i chi am unrhyw gyfraniadau ar gyfer mis Chwefror i fod gyda'r Golygydd cyn yr 20fed o Ionawr.

*

Mae'r Golygydd yn cadw'r hawl i newid, talfyrru neu newid testun neu luniau mewn unrhyw waith a yrrir i mewn. Gwneir hyn, ran fynychaf, er mwyn ymateb i ofynion gofod. Diolch yn fawr.

## Atebion pôs y dysgwyr

1: Tad y Cadeirydd 2: Cadwgan ap Seisyllt 3. Iestyn y Dysgwr
4. Blodwen 5. Y Cadeirydd

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Geraint a Jackie Hill ar enedigaeth efeilliaid , Bethan Sophia ac Isabelle Carwen, yn ysbyty Nevill Hall, Y Fenni ar ddiwrnod olaf mis Hydref.
Mae Anwen ac Ivan, Penpedairheol wedi gwirioni'n lân hefo'u dwy wyres fach newydd.

# Yn Gwneud Argraff!



*Darren y Bos yn esgus gweithio!*

O ble mae'r papur Cwm*ni* yn dod, meddech chi?
Wel, wedi i'r golygyddion orffen eu gwaith mae'r bobl hyn yn **Tower Print**, Caerffili yn mynd ati i argraffu.
Fyddwch chi ddim yn eu gweld nhw fel arfer ond dyma nhw yn cael golau dydd.
Does dim ond rhaid i chi droi i'r dde wrth Peter's Pies i Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas ac fe ddewch chi o hyd i argraffwyr o'r safon uchaf.
Maen nhw wedi gwneud gwaith i gwsmeriaid o bob math: yn llyfrau, gwerslyfrau, posteri, taflenni, tocynnau, cardiau, baneri, bapurau arholiad a phapurau newyddion wrth gwrs. Popeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Mae ganddyn nhw beiriannau o bob math i dorri a gludio, i ddidoli a thynnu llun heb sôn am y geriach sy'n rhoi'r inc ar y papur.
Mae'n dda gweld cwmni mor drylwyr yn ffynnu yn ein hardal




*Gerwyn yr argraffydd yn esgus bod yn seren roc!*

Cwmni a sefydlwyd gan ddau frawd, Darren a Paul Pole, ryw ugain mlynedd yn ôl yw Tower Print ac mae wedi tyfu'n raddol ers hynny i fod yn argraffdy o sylwedd tra aeth sawl cwmni argraffu arall i'r wal yn y blynyddoedd diwethaf. Nhw sy wedi bod yn gyfrifol am lawer o'r argraffu sydd wedi bod ar gyfer gweithgareddau'r Urdd yn ein hardal. A dydyn nhw heb godi yr un geiniog goch am wneud hynny.

Felly ewch i'w gweld nhw am unrhyw anghenion argraffu sydd ganddoch chi. Mae un o'u peiriannau yn gwneud cwpanaid o de go lew hefyd!

Bydd Sara Jane ar ben y ffôn a gallwch chi siarad Cymraeg â hi.

Mae Darren yn gyn-ddisgybl o Ysgol Ifor Bach ac yn gefnogol iawn i bopeth Cymraeg a Chymreig ond yn fwy na dim mae ansawdd y gwaith yn arbennig.



TOWER PRINT
designed to look good on paper



Sara Jane sy'n eich cyfarch.
**Siaradwch Gymraeg â hi!**

# Ysbyty y Glowyr gan Anaïs



*Ar Hydref 15 aeth Llysgenhadon y Glowyr ar ymweliad â safle'r hen ysbyty. Cafwyd diwrnod prysur a diddorol yno a dyma adroddiad manwl o'r dydd gan un o lysgenhadon Ysgol Gymraeg Caerffili.*

Roeddwn i yn teimlo yn nerfus a chyffrous wrth i fi, Mrs Rees a Hannah gyrraedd Ysbyty y Glowyr. Roedd hi'n ddiwrnod oer a ddiflas tu fas ac yn oer tu fewn i'r adeilad!! Yn gyntaf cafon ni siaced a helmed i gadw ni'n saff, roedden ni gyd yn edrych yn boncyrs! Cyflwynodd Ann a Katherine y gweithgareddau am y diwrnod. Cyflwynodd Ann yr adeiladwr a rhannon ni mewn i ddau grwp.

Aeth ein grwp ni am daith o amgylch yr ysbyty, er mwyn i ni weld beth oedd mynd i ddigwydd ym mhob ystafell. Roedd hyn yn gyfle i ni drafod gyda Katherine beth basen ni yn hoffi gweld ym mhob ystafell. Fy hoff ystafell oedd y caffi. Roeddwn i yn meddwl buasai yn syniad da i werthu pitsa, candy floss, cwn poeth a diodydd. Wedyn aethon ni'r suite cyfrifiaduron. Siaradodd menyw o GEAs am beth oedd yn mynd i fod yn y suite. Awgrymais i dylen ni gael pethau Apple , fel Apple Macs, I-pads a pods, Teledu Apple a wifi.

Ar ôl mynd lawr llawr aethon ni nol i'r ystafell parti! Yna gosodon ni friciau i greu wal gyda'r adeiladwyr. Roedd hyn yn lot o hwyl. Wedyn roedd hi'n amser cinio, erbyn hyn roedden ni i gyd yn llwglyd ac eisiau bwyd. Pan roeddwn i'n bwyta cwrddais i â ffrind o Ysgol Ifor Bach o'r enw Teigan.

Cyn i ni adael dangosodd a esboniodd un o'r adeiladwyr yr holl offer maen nhw'n defnyddio. Roeddwn i yn hoffi y gwn hoelion y gorau oherwydd roedd yn edrych yn cŵl.




Roedd rhaid i bawb ysgrifennu ein henwau a'r dyddiad ar ddarn o bren fydd yn cael ei osod tu fewn i wal fel bod pobl yn y dyfodol yn gwybod pwy oedd y llysgenhadon.

Daeth pobol o'r Co-op i siarad am Masnach Deg, esbonion nhw pan rydych chi yn prynu bwyd gyda logo masnach deg rydych chi yn rhoi canran o'r pris nol i'r ffermwyr sydd wedi cynhyrchu y bwyd. Cafon ni fag plastig gyda llyfr, siocled, pensiliau a gwybodaeth am y Co-op a Masnach Deg. Nawr roedd hi'n amser mynd adre a roedden ni gallu cadw yr helmed a'r siaced!

Menter Iaith Sir Caerffili

**CYFARFOD CYFFREDINOL**

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Safle'r Gwyndy

Nos Lun,, Rhagfyr 8fed

Siaradwr Gwadd

Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

6:30 – 8:30

Manylion Ffion Rees

# ‘Mawr a Bach’  Siloh, Zimbabwe, a Pharti Pyjamas



Mae Canolfan Gristnogol Gymunedol Siloh yn rhedeg dau grŵp ar gyfer plantos bach gydag oedolion. Bob bore Mawrth yn ystod amser tymor, mae ‘Ti a Fi’ yn croesawu tua 30 o oedolion, plantos a babis i chwarae, mwynhau byrbryd iachus a phaned, gwneud crefft syml, a chael amser stori a chanu yn Gymraeg. Mae ambell i riant wedi datblygu’r fath hyder yn y Gymraeg trwy fynychu’r grŵp hwn, a rhai tebyg, nes mynd ati i ymuno â chwrs hyfforddi gyda’r Mudiad Meithrin. Nid yw eraill yn bwriadu danfon eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg, ond maent yn gwerthfawrogi’r cyfle i ddatblygu geirfa syml ac yn mwynhau’r awyrgylch Gymreig.

Fore Iau, mae’r drysau’n agor ar gyfer croesawu aelodau o’r gymuned leol i’r grŵp dwyieithog ‘Mawr a Bach/ Great and Small’  - nifer o’r un bobl sy’n dod fore Mawrth hefyd! Gan mai gwasanaeth i’r gymuned gan Siloh ydy’r grŵp hwn, nid oes ffi, ond gwahoddir cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y grŵp, ac ar gyfer elusennau cenedlaethol a rhyngwladol. Y tymor diwethaf, noddwyd tŷ bach ar gyfer cymuned wledig yn Zimbabwe trwy’r cynllun ‘Toilet Twinning’, ac ym mis Hydref, cafwyd Parti Pyjamas i godi arian at elusen ‘National Brain Trust’. Roedd y plant wedi mwynhau gwisgo pyjamas, canu ‘Heno, heno’, a chlywed stori Iesu yn iachau’r dyn oedd yn dioddef o’r parlys. Fe gafodd y dyn ei roi drwy’r to ar ei wely gan ei ffrindiau, a bwyta ‘raisin wheats’ oedd yn edrych fel gobenyddion!



*Staff Siloh mewn pyjamas yn dangos tystysgrif ‘Toilet Twinning’ y Ganolfan*

Tamsin Llwyd Graves

## Neges gan Dafydd Iwan

Annwyl ddarllenwyr,
Carwn dynnu eich sylw at Gryno-Ddisg eitha gwahanol a fydd yn cael ei chyhoeddi y mis hwn. Ei henw yw “Lleisiau’r beirdd yn Llefaru Eto”, sef casgliad o feirdd Cymraeg yn darllen rhai o’u cerddi gorau. Mae’r beirdd i gyd ysywaeth wedi’n gadael, felly mae hon yn drysorfa unigryw o leisiau’r gorffennol (pell ac agos) yn llefaru wrthym heddiw. Mae’n dechrau gyda’r unig recordiad sy’n bodoli o Syr John Morris-Jones yn darllen darn o gywydd Goronwy Owen, a recordiwyd ar silindr. Mae’r gweddill, o Cynan i Gerallt Lloyd Owen,  o’r bardd o Ryd-ddu i Iwan Llwyd, ac o Waldo i Dic Jones, yn darllen eu cerddi eu hunain. 40 o ddarnau i gyd.
Os ydych am archebu copi o’r CD newydd, gyrrwch siec am £12.98 i SAIN, LLANDWROG, CAERNARFON LL54 5TG, neu ffoniwch 01286.831111 gyda’r archeb, ac os nodwch enw eich papur bro, bydd Sain yn anfon cyfraniad o bunt i’r papur am bob copi a werthir. Bydd “Yn Llefaru Eto” hefyd ar gael yn y siopau Cymraeg.
Dr. Gwyn Thomas oedd yr ymgynghorydd ar y casgliad hwn, ac wrth inni sylweddoli mor brin yw ein harchif genedlaethol o leisiau’n beirdd, mae Sain wedi dechrau ar raglen o recordio beirdd cyfoes yn darllen eu gwaith ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Yn gywir,
Dafydd Iwan.

# Digwyddiadur - Rhagfyr 2014 a Ionawr 2015

## Y Digwyddiadur

Rhagfyr 2014
Ionawr 2015

Canolfan Gymraeg
Oedolion Gwent

**YSGOL UNDYDD**
5 awr o ddysgu

Ionawr 10fed

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni,
Gellihaf
£15
01495 333710

Eisteddfod 2015

Taith i'r Clothes Show

Birmingham

£46

Rhagfyr 7fed

Cysylltwch â
Helen Hudson

Menter Iaith Sir Caerffili

**Gŵyl Aeaf**
**Caerdydd**

Taith i Aelodau Aelwyd
Cwmffili

Rhagfyr 9fed
Cysylltwch â Bethan

Menter Iaith Sir Caerffili

**CINIO NADOLIG**

Gwesty'r Wingfield,
Llanbradach

12:30

Manylion gan Ffion Rees.

Côr Cwm Ni

YMARFER

Pob Nos Fawrth

6:30

Ysgol Trelyn

Pwyllgor Nelson
Eisteddfod yr Urdd

**BINGO**

Ail nos Wener y mis
7:15
Neuadd Gymuned
Nelson
50c

Eisteddfod yr Urdd 2015
Pwyllgor y Dysgwyr
**Noson**
**Datrys y Dirgelwch**
Cwmni Cwm Ni

Ysgol Penalltau
23ain o Ionawr

Cysylltwch â'r Ysgol
01443862974

**Aelwyd y Gwyndy**

POB NOS FERCHER

5:30 – 7:30

Blynyddoedd 7, 8 a 9

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Safle'r Gwyndy

Cyswllt: Bethan Jones, Morgan
Roberts neu'r Fenter Iaith

Menter Iaith Caerffili

**Sesiwn Open Meic**
**Rhagfyr 2ail**

**4:00 tan 6:00**

Ystafell Gynadleddau
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Gellihaf

Menter Iaith Caerffili

**CREFFTAU'R NADOLIG**

£8 y sesiwn

Rhagfyr yr 2ail a'r 9fed

6:00 i 8:00

Arweinir gan Sandra Rose
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Y Gwyndy

Manylion: Ffion Rees

Menter Iaith Caerffili

**Taith i Fyd Harry Potter**

Rhagyf 5ed

Ar gyfer Blynyddoedd 7 – 13

Cyswllt: Bethan Jones

Merched y Wawr

**"Pwy yw pwy?"**

Ysgol Penalltau,
Ystrad Mynach
Ionawr 21ain
7:30

Canolfan Gristnogol Siloh

***Trafodaeth – Astudiaeth – Lluniaeth – Gweddi***
Cyfarfod Newydd Dwyieithog

Yn dechrau
Dydd Mercher, Ionawr 14

2:00 – 3:00
ymholiadau@siloh.co.uk/info@siloh.co.uk
01443 813617

Menter Iaith Sir Caerffili

**TAITH SIOPA i CHELTENHAM**

**£12**

Rhagfyr 6ed

Mannau Casglu
- Coed Duon 8:00
- Bargoed 8:15
- Ystrad Mynach 8:30
- Caerffili 8:45

Dychwelyd am 5:30
Cyswllt: Ffion Rees, Menter

Canolfan y Gymraeg i Oedolion
COLEG GWENT

**Ysgol Undydd**

Tŷ Brynglas
Casnewydd

Rhagfyr 6ed

**£15**

9:15 – 3:15

01495 333710

**Manylion Cysylltu â'r uchod**

Ffion Rees: ffionrees@metnercaerffili.org
01443820913
Bethan Jones: bethanjones@mentercaerffili.org
01443 820913
Morgan Roberts: morgan@urdd.org
Marian Fairclough: fairclough@aol.com
02920885151

## Priodas Ddiemwnt

## Rita a Milton Jenkins




Ganol Medi, yn Nhonyfelin, cawsom y fraint o ddathlu carreg filltir arbennig iawn ym mywyd ein gweinidog, y Parchedig Milton G Jenkins, sef trigain mlynedd o weinidogaeth ddi-dor. Saith wythnos yn ddiweddarach buom yn cyd-ddathlu eto, a charreg filltir arbennig arall i'w nodi, sef priodas ddiemwnt Mr a Mrs Jenkins. Priodwyd y ddau ar Dachwedd 2il, 1954, yn y Tabernacl, Bae Colwyn. Chwe deg mlynedd yn ddiweddarach treuliodd y ddau y diwrnod mawr yng nghwmni eu plant a'u hwyrion, ac wythnos yn ddiweddarach ar Sul y Cofio cafodd teulu Tonyfelin gyfle i rannu eu llawenydd. Addas iawn oedd y thema o gofio ar gyfer yr oedfa gyda Mr Jenkins yn hel atgofion am y cymeriadau, y digwyddiadau a'r dylanwadau a adawodd eu marc arno ef.
A nifer fawr o'r atgofion hynny, wrth reswm, wedi'u rhannu gyda Mrs Jenkins dros drigain mlynedd o fywyd priodasol. Ond nid edrych yn ôl yn unig a wnaeth Mr Jenkins ond gosod her i ni i gyd ar gyfer y dyfodol. Pa farc a adawn ni ar ein hôl wrth droedio drwy'r blynyddoedd? A yw'n bywydau ni yn datgelu'r Arglwydd Iesu Grist?
Wedi'r oedfa parhawyd y gymdeithas dros baned a theisen arbennig i ddathlu'r achlysur hapus, a chyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Jenkins gan ddwy o ferched yr Ysgol Sul.

*Eirian Dafydd*

# Llais y Beirdd

## Eisteddfod y Cymoedd

Cystadleuaeth 36 (Ail iaith)
Englyn wedi ei seilio ar Amos 5: 23-24

Ffydd gref heb ysbryd crefydd yw : geiriau
Gwaharddedig, di-liw.
Heb anadliadau byw ein Duw
Cân mynwent eu hemynau hwy.

*Rosa Hunt, Pentre'r Eglwys.*

## Soned i Gyfarch
**y Parchedig Milton Jenkins**

Glaslanc o Dir y Mynydd ddaeth un bore
I'r Coleg Gwyn dan rym yr Alwad gref.
Yn llanc o'r wlad, fe lwyddodd gyda'r gore;
Eglwysi lu rois Alwad iddo ef.
Derbyn Glyn Nedd a wnaeth y bachgen euraid
A dod a Rita gydag ef – y Ddyddgu dlos:
Yna Maesteg i fedi'r gwenith canaid
Llafurio gyda'r ifanc ddydd a nos.
Bethania Aberteifi, a Llywyddiaeth
Ein Henwad a ddaeth iddo'n glod;
Gweu "Cwrlid y cyfnodau" a rhagoriaeth
Yn basiant coeth cerddorol troad rhod.
Ymddeol? Na. Ymlaen o'r trigain mlwydd
Yn Nhonyfelin gyda graen a llwydd.

*Dafydd Henri Edwards*

Ein ymddiheuriadau am gyhoeddi fersiwn wallus o englyn y Dr John Lloyd yn rhifyn mis Tachwedd. Fel hyn y dylai ddarllen,

**Cofeb**
Fy enw, fe'i gwelaf yno - ar faen
rhyw fynwent. Bu cofio
ein dewrder â dwyster, do.
Ond heno'r gwn sy'n tanio.

# Menter Caerffili

Uchafbwyntiau'r mis diwethaf

**Oedolion**
Mae sesiwn trefnu blodau Ann Mears yn Y Gwyndy yn denu trefnwyr blodau brwd a thalentog. Bydd Ann yn dysgu sut i greu trefniant Nadoligaidd, edrychwn ymlaen at weld beth mae'r criw yn creu. Trïodd Bethan, ein swyddog Llais, ei llaw at greu un trefniant ac fe wnaeth hi fwynhau'n fawr.

Trefnwyd noson hefo'r BBC a Gwasg Gomer i ddathlu 40 blynedd o ddarlledu Pobl y Cwm. Daeth actorion y cymeriadau Eileen a Megan i drafod eu profiadau yn actio ar y gyfres sebon, a chawsom eu holi gan awdur Llyfr dathlu 40 blynedd Pobl y Cwm, Lowri Haf Cooke. Diolch i bawb fynychodd y noson, roedd y straeon yn ddifyr iawn.

**Plant**
Dros hanner tymor bu nifer o weithgareddau i oed cynradd. Gwnaethom gynnal dwy sesiwn gelf a chrefft Calan Gaeaf, un yn Rhymni a'r llall yng Nghaerffili. Hefyd roedd sesiwn goginio ac addurno teisennau cri. Roedd y bisgedi yn flasus iawn - mae cogyddion ifanc talentog yn ein Sir!   Hefyd yn ystod hanner tymor bu sesiwn Miri Meithrin hefo cyflwynwyr S4C a Rhiannon Wade o'r Urdd yn diddanu'r plant yn Safle'r Gwyndy. Roedd y weithgaredd yn llwyddiannus iawn, a nifer wedi mynychu. Diolch yn fawr i bawb am ein cefnogi.

**Pobl Ifanc** (Prosiect Ment Urdd Caerffili)
Dyma rai o'r gweithgareddau mae'r Urdd a Menter Caerffili wedi bod yn cydweithio arnynt

<u>Taith *Paintballing*</u> - Aethom ar daith arall i ganolfan *Paintballing* Delta Force yng Nghaerdydd. Tro hyn aeth 27 o Flwyddyn 7-9. Treuliwyd diwrnod cyfan yn chwarae gemau ac fe wnaeth y criw fwynhau yn fawr. Enillodd un o'r grŵp wobr chwaraewr y dydd Dwi'n sicr bydd taith arall yma eto yn y dyfodol, mae'n daith boblogaidd iawn!

<u>PCAI</u> (Prosiect Cefnogi Arferion Iaith) - Mae criw o Flwyddyn 12 Ysgol Cwm Rhymni yn rhan o brosiect PCAI Trywydd a'r Urdd ac rydym ni yn eu cynorthwyo gyda phrosiect yn y gymuned i gefnogi arferion iaith. Mae'r grŵp wedi dewis gweithio hefo Aelwyd Cwmffili er mwyn sicrhau llwyddiant y clwb a thrwy hynny helpu i gynyddu'r cyfleoedd i siarad Cymraeg yn gymdeithasol y tu allan i'r ysgol.

<u>Cyfarfod Fforwm MentUrdd</u> - Cynhaliwyd ail gyfarfod y flwyddyn a daeth rhai o safle Gelli Haf a'r Gwyndy. Creodd y grŵp *'Action Plan'* y fforwm gan gynnwys, trefnu cyfleoedd allgyrsiol i bobl ifanc gymdeithasu yn ogystal â rhoi'r cyfle i bobl ifanc roi barn a gwneud prosiectau amrywiol. Os ydych chi yn berson ifanc sydd yn hoff o fynegi barn ac eisiau cael llais yn y gymuned dewch i'r cyfarfod nesaf 3:15-4:15, Chwefror 12 2015 yn Safle'r Gwyndy.

<u>Aelwyd Cwmffili</u> - Mae aelodau'r Aelwyd yn ymarfer ar gyfer ein sioe Shrek yn ogystal â gwneud gweithgareddau amrywiol. Rydym wedi trefnu i aelodau'r Aelwyd i fynd i Ŵyl Aeaf Caerdydd, Nos Fawrth Rhagfyr 7fed. Bydd cyfle i sglefrio iâ a siopa Nadolig.
Bydd y criw yn perfformio Shrek Nos Sadwrn Chwefror 7fed yn Neuadd Y Gweithwyr Bedwas. Cadwch y dyddiad yn rhydd!

**Teithiau i ddod…**
Rhagfyr: Taith i Stiwdios Harry Potter Blynyddoedd 7+ Dydd Gwener, Rhagfyr 5ed (Diwrnod HMS Cwm Rhymni)
Chwefror: Taith i barc Trampolîn, Chwefror 13 (Diwrnod HMS Cwm Rhymni)
Mawrth: Taith Gwibgartio Nos Fercher Mawrth 18





Manylion: 01443 820913
bethanjones@mentercaerffili.org
morgan@urdd.org

# Ysgol Ifor Bach

# Clecs Ifor!






## Bore Coffi Macmillan

Braf oedd gweld cymaint o rieni yn cefnogi'n bore coffi 26.9.14, ble godwyd dros £300 tuag at yr elusen arbennig yma. Diolchiadau cynnes i'n cogyddion caredig am roi'u hamser i goginio cymaint o gacennau blasus ac i'r staff am baratoi bore braf o weithgareddau cymdeithasol i'r holl deuluoedd a ddaeth atom.



## Gweithgareddau'r Urdd

Gydag Eisteddfod Caerffili yn agosau, mae'r ysgol wedi trefnu gwledd o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth ac arian. Y weithgaredd gyntaf eleni oedd taith gerdded (neu ddringo) Penyfan ble godwyd £400. Ym mis Hydref bu Flashmob a thaith noddedig Cwm yr Aber, yng nghwmni Mistar Urdd, ble godwyd £350.

Bu gweithgareddau Flashmob a gorymdaith y dref yn llwyddiant mawr hefyd. Roedd gweld dros 2000 o blant sir Caerffili yn ymuno mewn gorymdaith a gwledd yng nghastell Caerffili yn deimlad emosiynol iawn. Daeth tua 100 o blant yr ysgol a'u rhieni i Tesco, Caerffili i ddawnsio gyda staff a chwmeriaid y siop cyn mynd ati i forymdeithio gyda mwy o ffrindiau drwy'r dref yn y prynhawn. Ac un o uchafbwyntiau'r dydd i ni oedd ennill cystadleuaeth y faner!!!!! (a derbyn gwobr o £500 i'r ysgol.)

## Oriel Ty Fry (noson gelf y meithin)

Roedd noson gelf y meithrin yn hynod o lwyddiannus, gyda rhieni'r meithrin yn derbyn gwahoddiad i ddod i fwynhau a gwerthfawrogi creadigrwydd eu plant ifainc. Roedd hi'n gyfle i rieni newydd ddod i 'nabod rhieni newydd eraill tra'n cael eu diddanu gydag eitemau cerdd plant hyn yr ysgol a chrwydro'r arddangosfeydd arloesol.



## Buddugoliaethau Rygbi

Llongyfarchiadau cynnes i'n tim rygbi. Roeddent yn edrych yn smart dros ben yn eu cit newydd ac roeddent wrth eu boddau yn ennill 6 allan o 8 gêm yn y twrnament diwethaf.



## Ennill Grant TGCh

Mae'r ysgol yn dathlu ennill grant o £10,000 i'w wario ar TGCh. Bydd yr arian yn mynd tuag at drawsnewid ein 'hystafell. com' i fod yn gaffi TGCh i blant a'u rhieni gymryd rhan mewn gweithdai gwahanol ar ôl ysgol.

5 ysgol yn unig ar draws Cymru enillodd y gwobrau ariannol yma.

## Ein Clybiau Dydd Gwener

Mae prynhawn dydd Gwener yn uchafbwynt pob wythnos ymhlith y plant (a'r staff)!!!! Mae'r safle yn cael ei thrawsnewid i 'gampws' llawn egni, sŵn a chyffro. Dyma sylwadau a barn plant CA2 am eu profiadau…

"Un o fy hoff glybiau yw trawsgwlad oherwydd mae'n cadw ni'n iach ac heini. Cyn dechrau rhedeg rydw I'n gyffrous ac mae gen I lawer o egni. Ar ôl awr, mae fy nghoesau yn teimlo fel jeli ac rydw I'n barod I fy ngwely."
Lowri Adam

"Rydw i'n hoffi'r ffaith bod dim gwersi ar brynhawn dydd Gwener. Rydw i'n teimlo llawer gryfach ac iach ers cymryd rhan yn yr holl glybiau."
Caleb Voisey

"Un o fy hoff glybiau yw celf a chrefft oherwydd rydw i wrth fy modd yn creu modelau 3D a thynnu lluniau gan defnyddio deunddiau gwahanol."
Chloie Denatale

Rydw i'n hoffi mynd gyda Mrs. Jones i'r goedwig a chwarae cuddio gyda fy ffrindiau a dysgu am y byd natur.
Harrison Simmons

## Etholiadau'r Cyngor Ysgol

Wedi wythnosau o ganfasio ac apelio at holl blant a rhieni'r ysgol, mae aelodau newydd y cyngor ysgol wedi'u cyhoeddi. Mae eu harweiniad yn barod yn rhagorol.
Un o dargedau cyntaf y flwyddyn oedd i gynllunio a chreu cysgodfa i'r plant meithrin allan o boteli plastig. Esboniodd plant y meithrin beth yn union oedd yn angenrheidiol a rhoddodd y pwyllgor plant yr her i blant CA2 i fod yn gwbl gyfrifol am y prosiect.



## Wythnos bwysig ym mywyd yr ysgol

Mae mis Hydref yn wythnos bwysig i ni bob blwyddyn gyda'r plant a'r staff yn cymryd rhan mewn gwasanaeth goffa yng ngardd goffa Senghennydd, ble dalwn deyrnged i un o drychinebau mwyaf trist ein cwm; Tanchwa Senghennydd. Yn dilyn hwn, gwelwn yr ysgol yn cymryd rhan mewn gŵyl gelfyddydau'r cwm, ble mae'r plant yn cystadlu mewn cystadleuathau celf a llenyddiaeth ac yn ymuno ag ysgolion eraill ein cwm mewn cyngerdd i ddathlu talent ein cymuned.
Eleni, enillodd yr ysgol 7 gwobr lên a'r darian am y gwaith celf gorau. Llongyfarchiadau cynnes.

**A Magic Carpet Ride**

**Join us for a journey on a magic carpet ride,**
**Jump on hold tight you're in for a surprise .**
**A dirty dancing dog,**
**a rude racoon,**
**a luscious green jungle,**
**a cheeky chubby chops,**
**a silly stomping elephant,**
**clouds as soft as pillows,**
**cracking crocodiles**
**and a loving heart.**
**What a magical journey! I hope you enjoyed your ride.**
**So many wonderful thing we saw.**
**Oh what a lovely surprise!**
By Kia Maria Jones (Year 3)



**Journeys**

Journeys are fun, Journey's are long
Over the hill and into the sun,
Under the clouds over the bridge
Rivers are running, roads are buzzing
Night time falls as the owls call,
Everyone sleeps, journey a bore
You'r e there!!!!
Surprise!!
By Chloie



## Colofn Dafydd Islwyn

Yn ddiweddar bûm yn ail ddarllen *Poetry Wales*, Gwanwyn 1981, rhifyn a ganolbwyntiodd yn benodol ar fywyd a gwaith Idris Davies, y bardd o Rymni. Teitl erthygl Glyn Jones, yr Eglwys Newydd yn y cylchgrawn chwarterol ydy, *Some Letters of Idris Davies*,. Dyddiad un llythyr ydy 12fed o Awst 1942 ac ynddo mae Idris Davies, a oedd newydd ddychwelyd i Crouch End, Llundain, yn dweud iddo ymweld â'r Genedlaethol yn Aberteifi. Cafodd hwyl anfarwol! Noson Lawen bob nos. Bu'n gwrando ar yr Athro Gwyn Jones, a anwyd yng Nghwmsyfiog, yn darlithio ar lenorion Eingl Gymreig. Yn dilyn y ddarlith bu trafodaeth fywiog, ac ymosodwyd ar waith y cadach coch o lenor, Caradoc Evans! Daeth Idris wyneb yn wyneb â Kate Roberts. A cheisiodd gael hwyl arni drwy ddyfynnu ychydig linellau o farddoniaeth Dylan Thomas.

Yn y County Theatre ym Mangor y cynhaliwyd y Genedlaethol y flwyddyn ddilynol. Bu Idris Davies yn aros gyda John Roberts Williams am bythefnos yn ystod yr amser. Mae'r darlledwr adnabyddus yn sôn am yr ymweliad yn ei ysgrif "Pryfocio" yn ei gyfrol "Annwyl Gyfeillion", 1975, Gwasg Gomer.

"Doedd Idris Davies erioed wedi bod mewn Eisteddfod Genedlaethol ac edrychai ymlaen yn anghyffredin am yr ymweliad â Bangor. Gŵyl amser rhyfel oedd hi, ac yn cael ei chynnal yn y County Theatre ac yr oedd pob tocyn wedi ei hen werthu. Ond gan fy mod i yn bur gyfarwydd â mynd a dod i wahanol fannau anhygyrch, chefais fawr o drafferth i smyglo Idris i'r galeri. Bu'n rhai i mi ei adael am oddeutu awr, a phan ddychwelais yr oedd Idris ar bigau'r drain. Yr oedd wedi edrych ar bobl fawr y Brifwyl yn eistedd yn ei wynebu yng nghefn y llwyfan. Yr oedd wedi adnabod un - Kate Roberts (a mawr edmygai ef hi, gyda llaw). Ac yr oedd wedi ei argyhoeddi fod Kate Roberts, nid yn unig wedi ei weld, ond hefyd heb dynnu ei llygaid swyddogol oddi arno er pan eisteddodd yn ei sedd.



# Idris Davies

"Mae Kate Roberts yn gwybod nad oes gen i diced - mae'n amlwg ei bod hi'n gwybod," meddai Idris. "Dyw hi ddim wedi tynnu ei llygaid oddi arnai."

Ofer oedd pob dadl. Wnâi Idris ddim twysu na thagu. Yr oedd Kate Roberts yn gwybod. Fe fu'n rhaid i ni godi a mynd adre am ein bywyd - y funud honno!

Mae'n rhaid nad oedd Idris Davies wedi sôn wrth John Roberts Williams ei fod wedi methu a swyno Kate Roberts flwyddyn ynghynt! Os gwelodd Kate Roberts ef yn y gynulleidfa, tybed wrth ei weld iddi ddwyn i go' y llinellau o waith Dylan Thomas a glywodd ganddo ar y stryd yn Aberteifi?

Ryw chwe wythnos cyn iddo farw, ar y 6ed o Ebrill 1953, derbyniodd Idris Davies lythyr oddi wrth Dylan Thomas o'r Book House, Talacharn, yn dweud mor ddrwg oedd ganddo glywed am ei salwch ciaidd ac yn ymddiheuro am beidio ag ysgrifennu ynghynt. Yn 1938 y cyhoeddwyd y gyfrol gynta o farddoniaeth Idris Davies, *Gwalia Deserta* - anialwch ydy Cymru. A phum mlynedd yn ddiweddarach, ei ail gyfrol, *The Angry Summer* - sef Haf Streic Fawr 1926. A sbardunodd y ddwy gyfrol uchod Dylan Thomas i ysgrifennu Dan y Wenallt?

Sôn am feirdd Cymru sy'n barddoni yn Saesneg, fe weithiodd John Tripp (1927-1986) brodor o Fargoed, gerdd goffa i Idris Davies a'i chyflwyno i Glyn Jones (1905-1997) bardd a llenor, a fu'n athro yng Nghaerffili. Cyhoeddwyd y gerdd yn *Poetry Wales* yn Haf 1983 ac yn *John Tripp Selected Poems,* 1988.

.CYMRU .WALES | Ein cartref ar-lein | Our home online

.com
.org.
.co.uk
**.cymru**

***Wrth i wefannau cyntaf gyda chyfeiriad .cymru a .wales cael eu lansio, mae Ieuan Evans, Cadeirydd Grŵp Cynghori .cymru .wales, yn esbonio hanes y prosiect hyd yn hyn, a'r camau nesaf yn natblygiad parthau newydd Cymru.***

Tan yn ddiweddar, nid oedd busnesau a defnyddwyr Cymraeg â'r dewis o ddefnyddio cyfeiriad gwe Gymreig. Rydym i gyd wedi hen arfer gyda .com, .org a .co.uk, ond mae'r rhestr enwau "ar ôl y dot" yn prysur ehangu. Ar 3ydd Dachwedd, fe fydd cyfle i fusnesau Cymreig gofrestru eu henwau busnes, ac wedi'r 29ain Ragfyr, fe fydd unrhyw un yn gallu cymryd rhan mewn ocsiwn i brynu'r enwau Cymraeg mwyaf poblogaidd. Yn olaf, ar Fawrth 1af 2015, fe fydd unrhyw un yn gallu gwneud cais am gyfeiriad gwefan neu e-bost eu hunain sy'n diweddu gyda .cymru a .wales ar sail y cyntaf i'r felin.
Rwyf wedi cefnogi'r prosiect i greu lle cwbl Gymreig ar y we ers sawl blwyddyn ac, ynghyd ag eraill, rwy'n rhan o'r grŵp sy'n cydlynu'r cyfeiriadau gwe newydd.
Rydym yn cyfeirio atynt fel "ein cartref newydd ar-lein". Dyma le i'r gymuned Gymreig, neu unrhyw un sydd eisiau annerch y farchnad Gymreig a chefnogi'r iaith Gymraeg ar-lein, ddangos eu bod yn rhan o rywbeth arbennig - .cymru a .wales.
Mae'r prosiect wedi'i gydlynu yng Nghymru ar gyfer pobl Cymru gyda chefnogaeth dechnegol a gweithredol Nominet, sy'n gofalu am .co.uk, a hynny oll gyda'r amcan o Gymreigio'r we.
Mae'r nifer o sefydliadau sy'n bwriadu newid i'r parthau'n parhau i gynyddu. Cyhoeddodd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli eleni eu bod am fabwysiadu'r parthau newydd. Ac mae'r un penderfyniad wedi ei gyhoeddi gan S4C, y Sioe Amaethyddol Frenhinol, Urdd Gobaith Cymru, Merched y Wawr, Undeb Rygbi Cymru, Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, Mudiad Meithrin ynghyd â Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol.
Derbyniom ymateb yr un mor gadarnhaol gan y sector breifat. Fe fydd Media Wales, tîm rygbi'r Sgarlets, y cwmni crysau-t poblogaidd Cowbois, yn newid i'r parthau newydd cyn bo hir. Mae'r rhain ynghyd ag ystod eang o fusnesau bach, gan gynnwys Y Lolfa, Fabulous Welshcakes, siop ar-lein Mabon a Mabli a Clark's Pies.
Ac rydym yn brysur yn sgwrsio gyda chynhyrchwyr bwyd ynghyd â'r sector amaethyddol a thwristiaeth. Mae'r "www" yn farchnad gystadleuol ac mae angen hwb i gefn gwlad Cymru. Mae'r fenter hon yn cynnig cyfle i sefydliadau, busnesau ac unigolion sefyll allan a hyrwyddo eu hunaniaeth Gymreig a'u hymrwymiad i Gymru.
Rydym yn hynod falch ein bod yn gallu cyhoeddi bod y cyrff Cymreig, allweddol hyn am newid eu henwau parth i .cymru a .wales cyn gynted â phosib. Mae'r enwau parth yn cynnig cyfle gwych i Gymru wneud ei marc ar y byd digidol. Ac mae'n wych bod y cyrff allweddol hyn yn ymuno â ni ar y daith, drwy arwain y ffordd ar gyfer busnesau a sefydliadau eraill led led Cymru.
Fe fydd galw ar ailwerthwyr parthau, a fydd yn gwerthu enwau parth i'r cyhoedd, i werthu'r ddau barth. Fe fydd unigolion, cwmnïau a sefydliadau yn gallu dewis cofrestru eu henw parth yn y Gymraeg neu'n Saesneg ar un ai .cymru neu .wales neu'r ddau.
Mae yna bartneriaeth wedi ei sefydlu gyda gwasanaeth Galw Gwynedd a weithredir gan Gyngor Gwynedd sy'n cynnig cefnogaeth canolfan-alw ddwyieithog i alwyr, boed yn siaradwyr Cymraeg neu Saesneg. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi ei sefydlu ac yn weithredol.
Gall busnesau Cymreig ddechrau'r proses cofrestru i gael enw .cymru a .wales. Ac ar ôl Dydd Gŵyl Dewi 2015, fe fydd y parthau ar gael yn gyffredinol i unigolion.
Er mwyn bod yn rhan, cofrestru eich diddordeb neu i ddarganfod mwy, ewch draw i [http://eincartrefarlein.cymru](http://eincartrefarlein.cymru)

# “Emporium Windows”



Agorwyd siop adrannol yr Emporium ym Margod yn y flwyddyn 1902, a gosodwyd cloc yn y tŵr yn y flwyddyn ganlynol. Mae un hen hysbyseb yn ei disgrifio fel ‘*The Largest, Best and Cheapest Ready-Money Drapery and Furnishing Establishment in the Valley*’. Rhoddir prisiau dillad mewn hysbyseb arall, e.e. ‘*Gents’ Tailor Made Trousers to order from 7s 11d to 19s 11d*’ [un hen geiniog o dan y bunt]. Gus Jones, gwerthwr watshiau a gemydd yn Hanbury Road, oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw’r cloc. Pan fu farw fe’i dilynwyd gan ei fab Lance. Cynhaliwyd dawns olaf y staff ym 1939. Ceir ffotograff o’r achlysur yng nghyfrol 1 *The History of Bargoed and Gilfach in photographs* gan Paul James. Roedd dros gant yno, merched yn bennaf.

Mae’r Emporium wedi hen gau, a’r tŵr wedi’i ddymchwel. Rhoddir awgrym o’r ystod eang o nwyddau a werthid yno gan y celfwaith *Emporium Windows*, a godwyd ar y palmant o flaen yr adeilad rhwng y Stryd Fawr Uchaf a’r Stryd Fawr Isaf. Cynnyrch comisiwn a roddwyd i’r artist Malcolm Robinson gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 2012 ydyw, i gydweithio gydag ysgolion cynradd Santes Gwladus a Park, Bargod. Mae’r plant yn y ffotograff yn edrych ar siapiau sy’n cynrychioli sgidiau dynion. Beth, dybiech chi, a gynrychiolir ar y chwith a’r dde? Testunau eraill y celfwaith trawiadol hwn yw cyllyll, ffyrc, llwyau a llestri; teganau; hetiau merched; a dillad a hetiau dynion.

Daw’r hysbysebion y dyfynnir ohonyn nhw o gasgliad Paul James, yn ogystal â’r ffotograff o’r Emporium yn ei hanterth. Gwelir ynddo ar y chwith siopau a sinema’r Palace ar y Stryd Fawr Isaf. Fe’i hadnabyddir oddi wrth liw gwyn ei ffasâd addurnol.

ON: daw ‘Emporium’ yn wreiddiol o *emporos*, yn yr hen Roeg. Mae’n golygu ‘masnachwr’. Addas, ynte? ‘*A store which sells a wide variety of goods*’ yw ystyr ‘Emporium’ yn ôl Wikipedia.



# RAPIO A BARDDONI GYDA BARDD PLANT CYMRU



## Aneirin Karadog



Roedden ni wedi bod nôl yn yr ysgol am chwech wythnos yn unig pan glywson ni'r newyddion cyffrous. Roedd Bardd Plant Cymru, Aneirin Karadog yn dod i'n hysgol ni i siarad â 8T Ysgol Gyfyn Cwm Rhymni!

Arhoson ni'n gynhyrfus yn ein llyfrgell, tra bod Aneirin ar goll yng Nghaerffili! Nodweddiadol! Cyn hir daeth Aneirin ar ein traws yng Nghwm Rhymni, a chyflwynodd ei hun i ni.

Wedyn er mawr bleser i ni rapiodd e un o'i ganeuon doniol tu hwnt (Paneidiwch). Roedd e'n anodd i stopio chwerthin! Dyn caredig a chyfeillgar yw Aneirin ac yn well yn rapio na 'Snoop Dog' a 'Tinie Tempah'! Ar ôl iddo gyflwyno ei hun, rhoddodd e un darn o bapur i ni i greu rap dwy linell am ein hunain. Roedd yna rai eithaf doniol fel y disgybl hwn:

"Fy enw i yw Rhydian, mae Mrs Evans yn fy mwlian!"

Mrs Evans yw ein hathrawes Gymraeg ni, ac mae hi'n rhoi llawer o waith cartref i ni, felly does ddim syndod bod Rhydian yn teimlo ei fod yn cael ei fwlian!

Ar ôl i ni gyflwyno ein hunain, troion ni at waith difrifol. Ein tasg ni oedd i ysgrifennu a pherfformio rap yn croesawi Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerffili. Beth? Sut roedden ni fod i wneud hwnna yn yr hanner awr oedd gennym ni? Ond achubodd Aneirin y dydd gan gyflwyno'r 'Odliadur'. Diolch byth!

Wedi ysgrifennu ein rapiau a oedd bron yn gwneud synnwyr, eisteddodd pawb i lawr. Gwrandawon ni ar rapiau ein gilydd, a oedd yn wahanol iawn i'w gilydd er mawr syndod. Gorffenon ni'r sesiwn gan siarad am Eisteddfod yr Urdd a'r posibilrwydd o weld ein gilydd yno Mai nesaf.

Cyfle rhyfeddol oedd y ddwy awr yma, fyddaf i a fy nghyd-ddisgyblion fyth yn anghofio.

Dyma ambell bennill;

*Yr afon Rhymni*
*Yn llifo trwy'r cwm*
*Yn teithio'r pentrefi*
*Does dim byd yn llwm.*

*Enwogion o fri*
*Fel Aaron Ramsey*
*Mae'n chwarae pêl droed*
*Y gorau erioed.*

*Felly dewch i'r eisteddfod i ganu*
*Gyda ni yng Nghaerffili*
*Selfi sili yw'ch swydd chi*

gan Lauren Boulter

# Annwyl Betsi

*Ein pleser yw cyflwyno'r cyntaf o gyfres o lythyron a enillodd i Gruffudd Gwyn Gadair Eisteddfod y Cymoedd eleni. Bydd eraill y dilyn*

15 Stryd y Bedol,
Y Ro Wen,
Abergofiant,
Meiriondir.
1af o Ragfyr 1913

Annwyl Betsi,

Mae'n chwith hebot yn barod! Rwyf newydd gyrraedd y ffosydd yn nwyrain Ffrainc, ac wedi bachu eiliad dawel yng nghornel ein cuddfan. Er fy mod yn gweld dy eisiau wyf fodlon na fyddaf yma'n hir, ac y byddi yn fy mreichiau eto. Mae pawb mewn hwyliau da, yn sgwrsio ac yn adrodd – a pham lai? Yn ôl y capteiniaid a'r rhai a'n canlynodd i ymuno â'r fyddin, mi fydd y gwaith wedi'i gwblhau o fewn ychydig fisoedd, os hynny.

Mae ambell i gymeriad yma ac amryw un yn uchel ei gloch. Dyddiau'n unig sydd wedi bod ers imi gyrraedd yma ond yn barod mae peth wmbredd o gyfeillion hynaws a chlên iawn wedi cyflwyno'u hunain i mi. Rwyf wedi bod yn chwerthin o'i hochr hi, ac yfed o ran hynny, ond heb fod yn mesur y ffordd eto! Mae yma hogyn o Gorwen sydd bellach yn un o'm cyfeillion hoff – mae'n byw bywyd i'r eithaf! Ei enw ydy Guto. Mi fyddet ti'n dotio ato a'i ffyrdd addfwyn! Barddoni, cynaeafu a hela ydy ei bethau, ac mae'n gryn syndod i mi gymaint ydy stôr ei straeon am hogyn sydd prin yn ei ugeiniau'n iawn eto. Straeon amdani felly pan fyddwn wedi 'laru ar y lle 'ma!

Mae'r tir mor las yma, fel pe na bai wedi dioddef dan law dyn nac yn poeni dim am ei drem cyson drosto. Does dim o bwys wedi digwydd eto yn fy ardal i, dim ymladd na chythrwfl. Manteisiais ar hyn gan fynd am dro ymysg y strydoedd dieithr a ffroeni'r awel o gyfeiriad y popty, a gweld colomennod o rif y sêr yn heidio at lonydd cefn a phennau byrddau. Mae rhyw deimlad hamddenol am y lle f'angel, a rhyw ddydd dof â thi yma, ar fy myw! Gyda'r haul ar fy ngwar yn bwrw 'mhryderon ohonof gwyddwn fod rhywbeth arbennig am y lle. Bûm ar ben rhyw fryncyn braf echdoe'n sawru mwynder y wad o'm hamgylch. Mae'r tir yn ymestyn am filltiroedd, a dim ond heulwen, gwlanoedd o gymylau, a chaeau perffaith sgwâr fel cledrau rhofiau yn y golwg. Mae pethau fel hyn yn heddychu dyn. Mae'n ddrwg gennyf f'angel! Efallai mai creulon yw disgrifio gwlad yn ei harddwch mor flodeuog, a thithau gannoedd o filltiroedd i ffwrdd! Maddeua i mi, ond mae'r lle'n fy llesmeirio!

Teg fyddai dweud fy mod yn teimlo'n weddol ddiddig a hyderus ar hyn o bryd. Mae Capten Tim Husslock, neu Twm Hestlog fel yr ydw i a'r mêts yn ei alw oblegid ei dymer tra stormus a sarrug weithiau, yn ffyddiog y bydd cael y Ffrancwyr a'r Rwsiaid y tu cefn i ni o gymorth mawr. "Awê â'r pencwn!" meddai wrthon ni yn ei Gymraeg gorau. Tynnu coes 'mechan i, mae synnwyr digrifwch yn werthfawr mewn lle o'r fath yma! Ond o ddifri angel, paid â phoeni amdanaf na'r gweddill. Roedd y wlad cystal athro â neb i mi, ac mae gwerth y caledi yna'n fawr iawn. Dysgais lawer yn fwy na beth ydy brechdan dda gan y gwaith caib a rhaw yn y caeau ers talwm! Ac mae dwylo rhai o'm cyfeillion yn galetach na haearn Sbaen – trueni nad ydynt yn rhan o'r rhyfel felly!

Mae criw da o Gymry yma, ac er fy mod yn colli dy ganu, dy de, dy giniawau a gwres dy fynwes, mae'r hiraeth haniaethol yn atgof pell erbyn hyn. Rwyf yn gwau drwy fyrdd o acenion yma – Sir Drefaldwyn, Pen Llŷn, Sir Benfro, Y Bala, Rhyl a Gwent ymysg y rhai difyrraf! A chyda chwmni a chwrw mor werth chweil â hyn, mi fyddaf yn ôl gyda thi mewn un darn yn siŵr, ond am rŵan, pwyll piau hi.

Teg edrych tuag adref,

Wmffre



# Ail-ymweld â Rhyfel Sbaen

*Mae Wendy Lewis, Bedwas, yn adrodd yr hanes amdani hi a'i chwaer Elaine yn mynd ar drywydd ei hewythr Sidney Shosteck a laddwyd yn Rhyfel Cartref Sbaen.*

Mae Belchite yn enw oedd yn gyfarwydd i 'nheulu i fel y man y lladdwyd Sidney Shosteck, brawd fy mam. Bu farw'n amddiffyn democratiaeth Sbaen, fel y bu farw traean o'r rhai a ymladdodd gyda'r Frigâd Ryngwladol. Pan glywon ni bod prosiect archeolegol yno, manteisiodd fy chwaer a minnau ar y cyfle i ymuno ag e.

Yr ochr sy'n ennill mewn unrhyw ryfel sy'n rheoli'r stori. Mae Franco a'i gefnogwyr yn Sbaen wedi ceisio dileu atgofion y Weriniaeth a rhoi eu fersiwn nhw yn ei le - wrth sôn am ferthyron Pabyddol, offeiriaid a laddwyd a'r "Cochion" y maen nhw'n beio am erchyllterau'r rhyfel. Parhaodd unbennaeth Franco i ladd gweriniaethwyr, fel gelynion y wlad, nid yn unig o 1936-39 ond hyd at ddiwedd yr 1950au a wedi hynny. Mae nifer fawr o feddau torfol yn Sbaen yn dal heb farc arnyn nhw.

Ers marwolaeth Franco bu awydd cynyddol i ddod o hyd i'r meirw. Bu rhai o archeolegwyr y Frigâd Ryngwladol, a drefnodd y prosiect, yn brysur yn dadorchuddio'r gorffennol.

Dywedon nhw wrthon ni am bentrefi lle'r oedd y trigolion , am y tro cyntaf ers dros 60 mlynedd, yn gallu dangos mannau lle lladdwyd ac y claddwyd pobol. Mae rhai o'r beddau sydd heb farciau wedi dod yn addolfannau, llefydd na chafodd eu haredig ond efallai wedi'u cofio drwy groes a dorrwyd mewn coeden. Er i bobol Franco adeiladu heolydd neu dai dros y beddau torfol, parhaodd pobol adael blodau ar y safle, neu wasgaru llwch y meirw i sicrhau eu bod yn ymuno â rhieni, brodyr neu ewythredd a gladdwyd yno.

Pan ddeuai Athro Prifysgol i gywain tystiolaeth, byddai neuadd y pentref yn llawn o rai'n awyddus i gymryd rhan, a deimlai am y tro cyntaf, eu bod yn gallu siarad am ddigwyddiadau saith deg mlynedd yn ôl.

Dywedodd Primo Levi, un a oroesodd y Gwersyll Crynhoi: *"Os yw deall yn bosib, mae cofio yn ddyletswydd."* Gellid synhwyro'r awydd angerddol i fod yn rhan o'r ail adeiladu pwysig hyn o gof hanesyddol.

Gadawyd adfeilion Belchite gan Franco fel rhybudd ac fel deunydd propaganda. Gorfodwyd y bobol i symud i dref Belchite Newydd yn 1954.





*Sidney Shosteck, ewythr Wendy ac Elaine*

**Mwy o'r hanes yn y rhifyn nesaf**

# Colofn y Dysgwyr




Helo bawb!  Wel, mae'r Nadolig yn dod ac mae llawer o bobl yn meddwl am ysgrifennu llythyr at Sion Corn ( *Father Christmas* ). Mae aelodau'r Pwyllgor wedi gwneud hynny yn barod ( *already* )! Ydych chi'n cofio pwy yw aelodau'r Pwyllgor :

Y Cadeirydd ( *Chairman* ) cas

Tad y Cadeirydd (zzzzzzzzzzzzzz)

Blodwen, gwraig y Cadeirydd

Cadwgan ap Seisyll, gwas bach ( *dogsbody* ) y Cadeirydd

a Iestyn y Dysgwr.

Nawr mae pob un o'r pump yma wedi ysgrifennu at Sion Corn. Eich tasg chi yw penderfynu pwy ysgrifennodd pa lythyr ( *who wrote which letter* ). Ydych chi'n cofio'r storïau am aelodau'r pwyllgor? Bydd y storïau yn rhoi cliwiau ( *clues* ) i chi.  BAROD?

Helo Sion Corn,
Os gwelwch yn dda ydw fi'n gallu gael Geiriadur yr Academi achos mae fi eisiau gwella Cymraeg fi. Diolch!

Annwyl Santa,
Hoffwn i gael clustog ( *cushion* ) esmwyth achos mae cadeiriau'r pwyllgor mor galed

Hybarch Sion Corn,
Gaf i wisg archdderwydd ( *archdruid* )os gwelwch yn dda?. Dim ond i'w wisgo yn y gwely a breuddwydio mai fi ydy FE.

Annwyl, annwyl Santa,
Dw i'n gwybod bod hyn yn ddrwg ond alla i ddim dioddef rhagor. Dw i'n gwybod bod ti'n deall. Alla i gael tin bach o arsenic – dw i ddim yn gallu ffeindio dim yn Tesco. Plîs Santa bach!

Annwyl Feistr Corn,
Mae'n rhaid i mi gael gwenwyn ( *poison* ), rhywbeth fel arsenic er mwyn dod â heddwch ( *peace* ) yn ôl i'm bywyd, er mwyn gwneud fy ngwaith pwysig. Dyma'r unig ateb!

canrif
Pysgod aur?
Joe Allen ac Ashley Williams
clawdd
dant
chwiban
draw
y fan

# Posau

## Chwilair - Mesur

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| t | r | a | w | ch | l | dd | e | m | m |
| d | i | c | a | i | y | b | i | i | u |
| e | t | t | t | f | l | n | l | l | n |
| g | ll | r | u | w | r | e | i | i | u |
| a | i | c | y | n | n | th | a | m | d |
| w | m | dd | g | i | e | a | d | e | p |
| d | y | r | w | a | n | ll | r | d | w |
| n | a | m | o | d | f | e | dd | r | y |
| dd | i | f | s | e | o | n | ô | t | s |

mileniwm munud
awr eiliad
llathen modfedd
milimedr pwys
stôn tunell
cufydd chwart
degawd milltir
erw gradd
blwyddyn oes
litr

Mae un mesur ar goll yn y llythrennau sy heb eu defnyddio

Mae'r ateb ar dudalen y dysgwyr.

?



Llygaid pa arwyr?





Roedd Bil a Ben yn gelain ar y llawr yn yr ystafell. Roedd y llawr yn wlyb. O'u cwmpas roedd gwydr wedi torri a phêl. Roedd y ffenest i'r ystafell ar agor a doedd y dodrefn heb symud. Doedd dim archoll na briw ar yr un o'r ddau.
Sut bu iddyn nhw farw?

Mae'r ateb ar dudalen y dysgwyr.

## Cysylltwch

Pen ———— Offa


Pen —— y llew

Pen ———— ogl

Pen ——— dros y don

Pen — —— hon


Allwch chi **symud** dwy fatsen yn unig a chreu pedwar sgwâr?
Ydy mae'n bosib. Dim torri na llosgi matsen!




Rhag ofn bod nunud i'w sbario gyda chi dros y Dolig!!!!!



**Atebion posau'r plant**





# Tân gwyllt ger y castell




Nos Sadwrn, 1af o Dachwedd, codwyd £4,100 gan 46 o gasglwyr. Aeth £2,050 tuag at Eisteddfod yr Urdd 2015. Diolch i Gynghorau Tref Caerffili, Bedwas a Machen, Cwm yr Aber, Llanbradach a Phwllypant am drefnu'r noson.

## Posau'r Plant

### Geiriau Croes

Allwch chi ffitio'r geiriau hyn i mewn i'r rhwyll?

| | |
|---|---|
| anrhegion | Sion Corn |
| Nadolig | seren |
| parseli | tân |
| coeden | nos |
| hosan | moron |




Mae llun un o'r parseli yn y llun ar dudalen arall yn y papur. Allwch chi ddod o hyd iddo fe?



Allwch chi ddod o hyd i NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun?

